



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Nehemeia: 1-2



- 1 Nehemeia oedd y bwtler oedd yn dod â gwin i'r brenin Artaxerxes, ymerawdwr y Mediaid a'r Persiaid.



- 2 Roedd Nehemeia yn Iddew ac yn gweithio'n llys y Brenin yn Shwshan yn Persia. Roedd yr Iddewon wedi eu caethgludo o Israel (ac o'r brif ddinas-Jerwsalem) gan y Babiloniaid. Ymhen amser fe drechwyd y Babiloniaid gan y Mediaid a'r Persiaid. Roedd nifer o Iddewon, gan gynnwys Nehemeia, wedi cartrefu yn yr ymerodraeth newydd.




- 3 Dyma Chanani (oedd yn perthyn i Nehemeia) a dynion eraill o Jwda, yn dod i'w weld. A dyma Nehemeia'n eu holi nhw am yr Iddewon oedd wedi gadael y gaethglud, a sut oedd pethau yn Jerwsalem.



- 
- 4 A dyma nhw'n ateb,  
"Mae hi'n galed ar y bobl  
sydd wedi mynd yn ôl i'r  
dalaith o'r gaethglud.  
Maen nhw'n cael amser  
anodd. Mae wal  
Jerwsalem wedi'i chwalu,  
a'r giatiau wedi'u llosgi."



- 
- 5 Pan glywodd Nehemeia  
hyn, dyma fo'n eistedd i  
lawr. Roedd o'n crio ac  
yn galaru am ddyddiau,  
a buodd o'n ymprydio ac  
yn gweddïo ar Dduw y  
nefoedd.



- 
- 6 Plediodd Nehemeia ar  
ran ei bobl: "Dw i'n  
cyffesu ein bod ni wedi  
pechu yn dy erbyn di.  
Dŷn ni wedi ymddwyn  
yn ofnadwy, a heb  
gadw'r gorchmynion  
wnest ti eu rhoi i dy was  
Moses. Plîs cofia beth  
ddwedaist ti wrth Moses:  
'Os byddwch chi'n  
anffyddlon, bydda i'n  
eich gyrru chi ar chwâl  
drwy'r gwledydd. Ond os  
byddwch chi'n troi a  
gwneud beth dw i'n  
ddweud, hyd yn oed os  
ydy'r bobl wedi'u chwalu  
i ben draw'r byd, bydda  
i'n eu casglu nhw yn ôl  
i'r lle dw i wedi dewis  
byw ynddo.' Dy weision  
di, dy bobl di ydyn nhw,  
ac rwyf wedi defnyddio  
dy rym i'w gollwng  
nhw'n rhydd. Plîs, o  
ARGLWYDD, gwranddo ar  
weddi dy was, ac ar  
weddïau pawb arall sy'n  
awyddus i dy barchu di."  
Gweddïodd Nehemeia  
am gyfle i siarad gyda'r  
Brenin.



- 
- 7 Ychydig wedyn, roedd o'n gweini ar y brenin fel arfer, ond dyma'r tro cyntaf iddo erioed edrych yn drist o'i flaen. A dyma'r brenin yn gofyn i Nehemeia "Pam wyt ti'n edrych mor ddiffas? Ti ddim yn sâl. Ond mae'n amlwg fod rhywbeth yn dy boeni di."



- 
- 8 Dwedodd Nehemeia ei fod eisiau cyfle i fynd yn ôl i Jwda i adeiladu'r ddinas eto. Cytunodd y brenin a rhoddodd ddogfennau iddo i ddangos i lywodraethwyr Traws-Ewffrates, i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd Jwda'n saff. Hefyd cafodd lythyr i Asaff, oedd yn gofalu am goedwig y brenin, i roi coed iddo i wneud trawstiau ar gyfer ailadeiladu'r ddinas. Rhoddodd y brenin ganiatâd iddo i wneud y cyfan, achos roedd hi'n amlwg fod Duw gyda Nehemeia.



- 
- 9 Cychwynnodd Nehemeia ar ei daith hir i Jerwsalem.



- 
- 10 Dri diwrnod ar ôl iddo gyrraedd Jerwsalem, dyma fo'n codi ganol nos a mynd allan gyda'r ychydig ddynion oedd ganddo. Yr unig anifail oedd gyda nhw oedd yr un roedd Nehemeia'n reidio ar ei gefn. Doedd o ddim wedi dweud wrth neb beth roedd Duw wedi rhoi awydd yn ei galon i'w wneud yn Jerwsalem.



- 
- 11 Roedd Nehemeia eisiau gwneud arolwg manwl o gyflwr y waliau.



- 
- 12 Aeth allan drwy Giât y Dyffryn ganol nos, a throi i gyfeiriad Giât y Sbwriel i edrych ar gyflwr y waliau oedd wedi'u chwalu a'r giatiau oedd wedi'u llosgi. Aeth ymlaen at Giât y Ffynnon a Pwll y Brenin, ond wedyn doedd dim posib i'r anifail fynd ddim pellach



- 
- 13 Ar ôl dychwelyd i'r ddinas dyma Nehemeia'n galw cyfarfod o'r arweinwyr. Dwedodd wrthyn nhw, "Dych chi'n gwybod mor anodd ydy pethau yma: mae Jerwsalem yn adfeilion a'i giatiau wedi'u llosgi. Dewch! Gadewch i ni ailadeiladu wal Jerwsalem, a dod â'r sefyllfa warthus yma i ben." Dwedodd yr hanes wrthyn nhw, fel roedd Duw wedi bod gydag ef, a beth roedd y brenin wedi'i ddweud wrtho.



- 
- 14 A dyma nhw'n ymateb, "Gadewch i ni ddechrau adeiladu ar unwaith!" A dyma nhw'n annog ei gilydd i fynd ati i wneud y gwaith pwysig yma.



- 
- 15 Ond, roedd ganddyn nhw elynion - Sanbalat o Choron, Tobeia, y swyddog o Ammon, a Geshem yr Arab. Dyma nhw'n dechrau gwneud hwyl am eu pennau a'u henllibio (galw enwau drwg). "Beth dych chi'n wneud? Ydych chi'n meddwl gwrthryfela yn erbyn y brenin?" A dyma Nehemeia'n ateb, "Gyda help Duw byddwn ni'n llwyddo. Ei weision e ydyn ni, a dŷn ni'n mynd i ddechrau ailadeiladu'r ddinas yma. Does yna ddim lle i chi yma, a dych chi erioed wedi bod â hawl i Jerwsalem."



- 
- 16 Cyfieithiad beibl.net.  
Mae mwy i hanes  
Nehemeia - cofiwch lawr  
lwytho gweddill yr  
hanes.



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---